Cyngor Cymuned Mehefin 21 2018 yn Neuadd Santes Ursula am 8 o'r gloch

Presennol : Huw Griffith, Lyn Davies, Islwyn Jones, Dylan Davies, Margaret Lewis, y Cynghorydd Rowland Rees Evans a'r clerc.

Ymddiheuriad :

Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mai ac arwyddwyd eu bod yn gywir.
Materion yn codi.
Polion Trydan. Gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau pellach ynglŷn â hyn gan y bydd yn rhaid i'r Cyngor Sir gysylltu â Scottish Power i ddweud pwy sydd â chyfrifoldeb am bob un o'r polion trydan. Dylid nodi hefyd fod y goleuadau rhybudd ysgol yn fflachio ar amser anghywir unwaith eto.
Elancity Arwydd Cyflymder Radar. Trafodwyd ymhellach a dod i'r casgliad mai arwydd sy'n gweithio o'r trydan fyddai'n fwyaf addas. Gan y bydd cysylltu â'r trydan yn debyg o fod yn gostus awgrymwyd gofyn i'r Cyngor Sir am gyfraniad ariannol.
Cofrestr Asedau. Ar ôl diweddaru'r rhestr cytunwyd i newid gwerth yr asedau i £5000 ar y ffurflen asesu risg, a'r un peth ar y ffurflen ariannol y flwyddyn nesaf.

Gohebiaeth
Gwybodaeth am Bwyllgor Rheoli Datblygu Mehefin.
Gwybodaeth am Ddiwrnod Gofalwyr yn Aberaeron. Rhoddwyd poster ar yr hysbysfwrdd.
Swyddog Maes Dyfed, Cymdeithas yr Iaith, am drefnu digwyddiad i godi ymwybyddiaeth am Ddatganoli Darlledu.
Merched y Wawr Llangwyryfon yn diolch am y cyfraniad.

Ebyst
1 Clic Ceredigion – gweithdy i ddangos sut mae'r porth digidol 'Fy Nghyfrif' yn gweithio. Gan fod y dyddiad wedi mynd heibio gofynnwyd i'r clerc wneud trefniadau i gael hyfforddiant unigol os yn bosib.
2 Un Llais Cymru yn cynnal Cynhadledd Arfer Arloesol ar faes y Sioe Frenhinol – 4ydd Gorffennaf
3 Heneiddio'n Dda yng Nghymru wedi cyhoeddi dau adroddiad – Effaith a Chyrhaeddiad 2018 ac Adroddiad Cynnydd 2014/18
4 Llywodraeth Cymru yn nodi'r wybodaeth sy'n cael ei storio ar gronfa ddata ganddynt, sef enwau'r cynghorwyr ar y Cyngor Cymuned, enw'r clerc neu gyswllt, cyfeiriad post, rhif ffôn, a chyfeiriad e-bost y Cyngor neu'r clerc.
5 Newyddlen Draenio Cynaliadwy yn sôn am gyflwyno proses gymeradwyo, a safonau newydd ar gyfer rheoli draenio dŵr wyneb.

6 Gofyn barn ar y newidiadau arfaethedig i'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref yn ymwneud ag ehangu ynni adnewyddiadwy a'r ddarpariaeth delegyfathrebu.
7 Model Newydd Rheolau Sefydlog 2018. Printiwyd copi fel bod modd troi ato fel bydd angen.
8 Elusen newydd – Dyfed-Powys Diogel. Cyllid ar gael ar gyfer prosiectau ar gyfer pobl ifanc yn ymwneud â diogelwch cymunedol.
9 Ffurflen taliadau i Gynghorwyr. Dim un o'r Cynghorwyr yn derbyn tâl ond rhaid anfon ateb i'r perwyl hynny erbyn 30 Medi at Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Ariannol
Ateb boddhaol wrth Zurich a thalwyd £258.73
Wedi derbyn cyfraniad o £1625.00 wrth edf energy.
Mantolen – Cyfrif Cyfredol - £1630.15 Cyfrif 2 - £25,426.48 ond siec Canolfan Bethel am £400 heb ei dalu allan a chyfraniad edf energy heb ei gynnwys eto.
Llythyr wrth y Clwb Garddio yn gofyn am gyfraniad tuag at brosiect garddio mewn cysylltiad â'r Ysgol Gynradd. Ni fynegwyd gwrthwynebiad ond gofynnwyd am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r costau.
Cytunwyd i godi cyflog y clerc i £300 bob tri mis, gan gymryd y £100 ychwanegol o gyfrif rhif 2 am y tro.

Unrhyw fater arall

1 Adroddwyd bod dirfawr angen hysbysfwrdd newydd yn Nhrefenter ger Hafod Newydd. Cytunwyd i wneud ymholiadau ac edrych ar rai mewn pentrefi eraill
2 Codwyd yr angen am finiau halen unwaith eto. Ni chafwyd ymateb boddhaol i'r cais ym Mai 2016. Gofynnwyd i'r clerc godi'r mater eto gyda'r Cyngor Sir.

Dyddiad y cyfarfod nesaf – Gorffennaf 19, 2018
Yn ddiweddarach newidiwyd hwn i Orffennaf 20fed.